**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron gynhaliwyd nos Lun, Mai 15fed 2023 yn Neuadd Y Rhiw**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Dewi Evans, Mari Evans, Wil Evans, Emlyn Jones, Jaci Jones, Dafydd Myrddin, Nesta Roberts, Tim Rosa, Dafydd Williams, Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Sir)
**Yn y gadair:** Y Cyng Wenda Williams
**1)<u>Ymddiheuriadau a datgan diddordeb</u> :** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Gwenlllian Hughes Jones ac RJ Williams.
**<u>2)Cyhoeddiadau y cadeirydd</u>:** Cydymdeimlwyd a'r cyn gynghorydd Gareth Roberts sydd wedi colli ei dad yn ddiweddar a'r clerc, Iwan Hughes sydd wedi colli ei fodryb yn Llanbedrog. Dymunwyd yn dda i'r Cyng Dafydd Williams a'i gymar Catrin sydd wedi symud i gartref newydd a dymunwyd pob lwc iddynt ar eu priodas fis nesaf.
Eglurodd y Cadeirydd ei bod am gyfranu £50 i Gôr Cantorion Llŷn yn unol a'r hawl sydd gan y Cadeirydd i roi cyfraniad i achos da o'u dewis ar ddiwedd eu tymor yn y gadair.
Adroddodd ei bod wedi derbyn llythyr ymddiswyddiad y clerc a'i fod yn fodlon cario 'mlaen tan ddiwedd mis Gorffennaf os na chaiff rhywun arall ei benodi i'r swydd cyn hynny. Nodwyd mai dau fis o rybudd sydd yn ofynnol yn ôl telerau y swydd. Penderfynwyd hysbysebu y swydd ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn Llanw Llŷn.
**<u>3)Ethol cadeirydd ac is gadeirydd am y flwyddyn 2023-24</u>:**
Cynnigwyd enw yr îs-gadeirdd, y Cyng Wil Evans yn gadeirydd ond eglurodd ei bod braidd yn anodd iddo gymeryd y swydd. Gan nad oedd y ddau aelod arall sydd yn cynrhychioli ward Rhoshirwaun yn bresennol penderfynwyd gohirio ethol Cadeirydd tan y cyfarfod nesaf.
Cynnigwyd, eilwyd a phenodwyd y Cyng Jaci Jones yn îs gadeirydd am y flwyddyn 2023-24 a chymerodd y gadair.
**4)<u>Adroddiadau gan gynrhychiolwyr ar gyrff allannol ac ethol cynrhychiolwyr i gyrff allannol</u>**
a)Neuadd y Rhiw: Adroddodd y Cyng Emlyn Jones nad oes llawer o weithgareddau yn cymeryd lle yn y neuadd ar hyn o bryd. Ail benodwyd y Cyng Emlyn Jones yn gynrhychiolydd.
b)Pwyllgor cae chwarae: Nid oedd y Cyng Gwenllian Hughes Jones, cynrhychiolydd y Cyngor ar bwyllgor y cae chwarae yn bresennol.
c)Ysgol Crud y Werin: Ni oedd y Cyng Gwenllian Hughes Jones, cynrhychiolydd y Cyngor ar lywodraethwyr yr ysgol yn bresennol i roi adroddiad.
ch)Canolfan Deunant: Adroddodd y Cyng Wenda Williams fod pethau yn mynd yn dda yn y ganolfan ar hyn o bryd. Ail benodwyd y Cyng Wenda Williams i gynrhychioli y Cyngor ar y pwyllgor.
ch)Unllais Cymru: Mae'r Cyng Wenda Williams yn cynrhychioli y Cyngor, fe'i hail benodwyd, penodwyd y Cyng Dewi Evans yn ail gynrhychiolydd.
e)AHNE Llŷn: Mae'r Cyng Wenda Williams yn cynrhychioli y Cyngor, fe'i hal benodwyd ynghyd a'r Cyng Dewi Evans yn ail gynrhychiolydd.
ff)Grwp Mynediad Dwyfor: Adroddodd y Cyng Emlyn Jones nad oes cyfarfodydd wedi bod ond mae yn fodlon cynrhychioli os y bydd pwyllgorau yn cael eu cynnal.
ff)Fforwm Mynediad Lleol Arfon a Dwyfor: Nid yw'r Cyng Emlyn Jones wedi bod yn mynychu cyfarfodydd yn ddiweddar ond mae'n fodlon parhau i gynrhychioli y Cyngor ar y pwyllgor.
g)Canolfan Crud y Werin: Adroddodd y Cyng Dafydd Myrddin fod cynlluniau ar y gweill i ddatblygu toiledau a cheginnewydd yn y ganolfan, a bod pwyllgor y ganolfan yn awyddus i fwy o weithgareddau gael eu cynnal yno. Ail benodwyd y Cyng Dafydd Myrddin i gynrhychioli y Cyngor ar y pwyllgor.
**5)<u>Adolygu Rheolau Cyllidol, Sefydlog a Mewnol y Cyngor ynghyd ag asesiad risg</u>:** Nid yw'r Cyngor yn teimlo fod angen gwneud newidiadau i'r dogfennau ar hyn o bryd ac mae pawb yn fodlon gyda'u cynnwys.
**<u>6)Mabwysiadu côd ymddygiad</u>**: Ail fabwysiadwyd y côd ymddygiad.
**<u>7)Lwfansau Cynghorwyr</u>:** Nid yw yr aelodau yn dymuno derbyn lwfansau.
**8)<u>Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 11eg o Ebrill 2023</u>:** Derbyniwyd y

cofnodion fel rhai cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.
**9) <u>Materion yn codi o'r cofnodion</u>**
**i)Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau:**
i)Adroddwyd fod y tyllau wedi eu cau rhwng Morfa Bach a Morfa Mawr a'r ffos ger Eglwys Bodferin wedi ei chlirio.
ii)Nid oes ateb wedi dod gan yr adran llwybrau ynghylch llwybr Nant y Gadwen.
iii)Mae'r gwyn am faw ci yn ardal Y Rhiw wdi ei phasio ymlaen i Gyngor Gwynedd.
iv)Mae'r clerc yn aros am ymateb ynghylch trefnu hyfforddiant defibs yn Aberdaron.
**ii)Materion yr Eglwys Newydd:** Mae'r pensaer yn y broses o gael prisiau gan gontractwyr ar gyfer y gwaith brys i drwsio to yr eglwys a gofynodd yr aelodau i gwmni Gallagher o Fangor ac OBR o Ynys Môn gael eu ychwanegu i'r rhestr dendro.
Adroddwyd fod dau fil wedi ei derbyn gan gwmni Donald Insall, un am £5460 am wneud y gwaith cysylltiedig â'r astudiaeth dichonoldeb, ac am £2,100 am wneud y pecyn gwaith brys. Mae'r clerc wedi holi y cwmni os ydi yr holl waith wedi ei gwblhau ond heb gael ateb hyd yma. Penderfynwyd peidio a thalu ar hyn o bryd, ac aros am ateb gan y cwmni.
**iv)Hysbysfyrddau:** Mae'r ddau hysbysfwrdd wedi eu gosod a diolchwyd i'r Cyng Emlyn Jones am osod un ar wal Neuadd Y Rhiw.
**v)Cyfarfod gyda'r Adran Forwrol:** Adroddwyd fod cyfarfod cadarnhaol wedi ei gynnal gyda swyddogion yr adran. Mae'r bwiau am gael eu gosod eleni a bydd swyddog y traeth yn cael ei benodi i ofalu am y traeth yn ystod y tymor ymwelwyr.
**10) <u>Gohebiaethau</u>**
**i)Llythyr gan y Cyng Gareth Williams parthed cylchfan ym Mhenygroeslon:** Derbyniwyd llythyr gan y Cyng Gareth Williams yn gofyn am gefnogaeth i'w gais i Gyngor Gwynedd am gylchfan ym Mhenygroeslon. Mae'r Cyngor o'r farn fod y groesffordd yn beryglus a phenderfynwyd cefnogi y cais trwy anfon llythyr o gefnogaeth i Gyngor Gwynedd.
**ii)Llythyr gan Gyngor Cymuned Pistyll parthed hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg:** Derbyniwyd llythyr yn datgan anfodlonrwydd am y ddarpariaeth o gyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg. Penderfynwyd anfon llythyr i gefnogi Cyngor Cymuned Pistyll.
**iii)Llythyr gan Bleddyn Jones o adran AHNE Cyngor Gwynedd yn gofyn am fynychu cyfarfod i drafod y cynllun Awyr Dywyll:** Penderfynwyd fod croeso iddo fynychu.
**iv)Polisi iaith y Cyngor:** Derbyniwyd copi o dempled polisi iaith ac fe benderfynwyd mabwysiadu y polisi.
**vii)Gwahoddiad i gyfarfod 'Ardal Ni 2035 dalgylch Llŷn yn Neuadd Abersoch ar y 18fed o Fai:** Er gwybodaeth i unrhywun sydd â diddordeb i fynychu.
**v)Llythyr o gwyn ynghylch Meddygfa Rhydbach:** Derbyniwyd cwyn parthed y drefn apwyntiadau yn y feddygfa, penderfynwyd anfon y gwyn ymlaen i reolwr y feddygfa. Nodwyd fod angen torri gwellt o amgylch y feddygfa.
**11)Materion i'w trafod ar gais aelodau:**
i)**Ambiwlans Awyr:** Adroddodd y Cyng Emlyn Jones ei fod wedi mynychu cyfarfod yn Ysgol Glan y Môr yn ddiweddar i drafod dyfodol yr ambiwlans awyr a phwysleisiodd fod y gwasanaeth yn un hynod o bwysig i Ben Llŷn a bod angen cefnogi a chyfranu at y gwasanaeth.
**12) <u>Cynllunio</u>**
C23/0019/30/CR: Amnewid y ffenestri gromen gyda rhai pren o'r un dyluniad ond gyda unedau dwbl, Carreg Plas, Aberdaron: Dim gwrthwynebiad
C23/0231/30/LL: Cais llawn i ddymchwel toiled allanol ac ymestyn a gwella adeilad allanol presennol i greu anecs preswyl, Tyddyn Meirion, Y Rhiw: Dim gwrthywnebiad ond pwysleiswyd fod y Cyngor yn cefnogi gan fod adeilad eisioes ar y safle.
C23/0303/30/DT: Cais ar gyfer dymchwel estyniad bychan presennol ynghyd a chodi estyniadau unllawr ar yr eiddo,Y Groesffordd, Y Rhiw: Dim gwrthwynebiad.
C23/0216/30/YA Rhybudd o flaen llaw i godi sied amaethyddol ar gyfer storio cyfarpar offer ffermio, Caerau, Aberdaron: Dim gwrthwynebiad.
**13)Ariannol**
**i)Mantolen ariannol 2022-23:** Derbyniwyd y fantolenl. Roedd copi o'r ffurflen flynyddol wedi ei chylchredeg a derbyniwyd y ffurflen. Mae'r clerc yn y broses o baratoi y ddogfennaeth ar

gyfer yr archwiliad mewnol. Mae llythyr wedi ei anfon i Gyngor Gwynedd i ofyn i'r adran archwilio ymgymeryd â'r archwiliad mewnol.
**ii)Adolygu cyfog y clerc:** Penderfynwyd codi cyflog y clerc i £15 yr awr o fis Mai. Yn unol â'r gontract, 5 awr yr wythnos ydi cyfartaledd yr oriau a weithir.
**Taliadau**
**Awdurdodwyd talu y canlynol:**
Iwan Hughes: £195.53 (cyflog)
HMRC (Paye): £48.80
Nesta Roberts: £12.56 (CCTV trwy S/O)
John Tudor: £130 (paratoi Paye)
Greenbarnes Ltd: £1822.33 (hysbysfyrddau)
William John Jones: £180 (gosod hysbysfwrdd)
Canolfan Deunant: £250 (cyfarfodydd)
Neuadd Y Rhiw: £20 (Cyfarfod)
**Derbyniadau**
Cyngor Gwynedd (praesept): £7,500
**14) <u>Materion ffyrdd a llwybrau</u>**
i)Codwyd cwestiwn ynghylch hawl i farchogaeth ar y traeth a chyfrifoldeb am glirio ar eu holau. Penderfynwyd anfon at yr Adran Forwrol i holi.
ii)Trafodwyd bwriad Cyngor Gwynedd i ail drethu tai yn seiliedig ar brisiau tai yr ardal ar y farchnad, sef prisiau uwch na fyddai pobl leol yn gallu fforddio ei dalu am eu tai, gwelir hyn fel cosb. Penderfynwyd ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i holi am y bwriad yma.
iii)Mae tyllau drwg yn y ffordd o Efail Saithbont hyd at 'pin Tŷ Mawr' Mynytho.
iv)Mae cyflwr y ffordd o groeslon 'Ffôr' i Tŷ Croes, Y Rhiw yn sâl..
v)Mae cerrig milltir llechen yn yr ardal mewn cyflwr sâl, cyfeirwyd at y gareg filltir wrth Bodwrdda fel engrhaifft. Nodwyd y dylid trafod cyflwr y cerrig milltir gyda'r Adran AHNE.
vi)Hysbyswyd y Cyngor fod cyfarfod Ynni Llŷn i'w gynnal ar y 24ain o Fehefin, bydd mwy o fanylion yn dilyn.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor yng Nghanolfan Deunant ar y 12fed o Fehefin am 7.30.**